



ATHROFA PADARN SANT  
ST PADARN'S INSTITUTE

## **Cynllun Ddatblygu'r Gymraeg Athrofa Padarn Sant**

**Cymeradwywyd y Cynllun Iaith Gymraeg gan  
Fwrdd Gweithredol Padarn Sant 18/07/22**

## 1. Cyflwyniad

Mae Athrofa Padarn Sant yn rhan annatod o'r Eglwys yng Nghymru ac mae iddo weledigaeth o ffurfiant wedi seilio ar genhadaeth i holl bobl Duw.

Mae gan Athrofa Padarn Sant saith maes gwaith:

1. Gweinidogaeth a Meithrin Disgyblion Lleyg : hyfforddiant ac adeiladu medrusrwydd sydd ar gael i bobl leyg o fewn yr Eglwys yng Nghymru, i'w cynorthwyo i dyfu yn eu disgyblaeth.
2. Ffurfiant ar gyfer y Weinidogaeth Drwyddedig: hyfforddiant a chefnogaeth i unigolion sydd yn dechrau eu hyfforddiant i'r weinidogaeth drwyddedig.
3. Gweinidogion Trwyddedig Newydd: hyfforddiant a chefnogaeth i'r rheiny sydd newydd drwyddedu.
4. Datblygiad Parhaus i Weinidogion: cefnogi anghenion hyfforddiant parhaus.
5. Datblygu Polisi Gweinidogaethol: dod a rhanddeiliaid ar draws yr Eglwys ynghyd i ddatblygu Polisi Gweinidogaethol.
6. Ymchwil ac Addysg Ôl-radd: sbarduno a hwyluso ymchwil diwinyddol er mwyn helpu i alluogi'r Eglwys a'i chenhadaeth. Cyfrannu at hyfforddiant tu allan i Gymru drwy hyfforddiant i Gaplaniaid.

Cymuned yw Athrofa Padarn Sant yn hytrach na choleg mewn ystyr traddodiadol. Cymuned ar gyfer ffurfiant sy'n gweithio gydag Esgobion, esgobaethau a chymunedau eglwysig lleol ac sydd wedi ei gynnal a'i ysbrydoli drwy weddi.

## Gweledigaeth

I wasanaethu Duw drwy drawsnewid cenhadaeth o gariad at Gymru drwy fod yn gymuned sydd a'i ffocws ar ffurfiant a hyfforddiant yn seiliedig ar genhadaeth, er mwyn holl bobl Duw.

## Gwerthoedd

Cymuned sy'n:

- Edrych tuag allan
- Ysbrydol
- Dysgu
- Newid
- Ddewr

Cymuned sy'n ceisio gwasanaethau:

- Cymunedau lleol
- Yr Eglwys yng Nghymru
- Siaradwyr Cymraeg a siaradwyr Saesneg yn gyfartal
- Cymru gyfan
- Pobl o ba bynnag gefndir, ac ar unrhyw gam yn eu disgyblaeth neu weinidogaeth

## 2. Datganiad

Bydd Athrofa Padarn Sant yn trin y Gymraeg a Saesneg yn gyfartal. Rydym o'r farn bod cynnig gwasanaethau sy'n parchu iaith ddewisol unigolion yn medru gwneud gwahaniaeth mawr i brofiad yr unigolyn. Rydym eisiau annog unigolion sy'n ymdrin ag Athrofa Padarn Sant i deimlo'n yn gyfforddus i ddefnyddio eu hiaith ddewisol. Byddwn yn cynnig gwasanaethau dwyieithog lle fo hynny'n bosib ac yn ymarferol.

Pwrpas y Cynllun hwn yw rhoi amlinelliad o sut fydd Athrofa Padarn Sant yn gweithredu'r egwyddor o ddarparu gwasanaethau i ddefnyddwyr ein gwasanaeth. Bydd y cynllun yn esbonio sut byddwn yn gweithredu, a phryd byddwn yn gobeithio cyflawni ein hamcanion. Bydd dysgu o brofiad yn rhan fawr o'r cynllun ac mi fyddwn yn ymdrechu i sicrhau cynnydd parhaus i'r cynllun er mwyn cynnig y gwasanaeth orau posib i'n defnyddwyr.

## 3. Cynllunio a darparu gwasanaethau

### 3.1 Polisiau a mentrau newydd

Mi fyddwn yn sicrhau bod staff a gwirfoddolwyr yn ymwybodol o ofynion a disgwyliadau'r Cynllun Iaith Gymraeg.

Y Pennaeth fydd yn gyfrifol am sicrhau fod unrhyw ddatblygiadau yn parchu'r ymrwymadau a wneir yn y cynllun.

### 3.2 Darpariaeth o wasanaethau

Y nod yw darparu gwasanaeth o safon uchel. Bydd safon y gwasanaeth dwyieithog hwn yn cael ei adolygu yn rheolaidd, gyda'r nod o wella parhaus o'r safonau.

Bydd Athrofa Padarn Sant yn gweithio tuag at ddarpariaeth gwasanaethau cynhwysfawr yn Gymraeg ac yn Saesneg drwy:

- sicrhau bod yr holl staff / gwirfoddolwyr yn ymwybodol o oblygiadau'r Cynllun Iaith Gymraeg.
- annog defnyddwyr y gwasanaeth i deimlo'n gyfforddus i ddefnyddio Cymraeg drwy ddefnydd adnoddau sydd ar gael megis; bathodynau *Iaith Gwaith* a phosteri.

- ddod o hyd i wasanaethau cyfieithu o'r radd flaenaf gan sicrhau bod deunyddiau perthnasol yn cael eu cyfieithu yn gyflym ac mewn modd dibynadwy.

## **4. Cyfathrebu gyda'r cyhoedd- Siaradwyr Cymraeg**

### **4.1 Gohebiaeth ysgrifenedig**

#### **Gohebiaeth ysgrifenedig gan gynnwys e-byst**

- Mae Athrofa Padarn Sant yn croesawu gohebiaeth ysgrifenedig yn Gymraeg ac yn Saesneg.
- Bydd pob llythyr a dderbynnir yn Gymraeg yn cael ei ymateb yn Gymraeg
- Bydd gohebiaeth yn Gymraeg yn cael ymateb o fewn yr un amser â gohebiaeth yn Saesneg.
- Bydd papur pennawd Athrofa Padarn Sant yn cynnwys datganiad dwyieithog sy'n nodi ein bod yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg.
- Lle nad ydy dewis yr unigolyn yn amlwg, er enghraifft mewn llythyron safonol, bydd gohebiaeth ysgrifenedig i'r cyhoedd yng Nghymru yn ddwyieithog.

### **4.2 Cyfathrebu ar y ffôn**

Mae croeso i bobl i siarad Cymraeg neu Saesneg wrth ymdrin ag Athrofa Padarn Sant dros y ffôn. Bydd pob galwad ffôn yn cael eu cyfarch yn ddwyieithog:

"Bore da, good morning St Padarn's"

"Prynhawn da, afternoon St Padarn's"

Os yw aelod o staff yn methu darparu gwasanaeth dwyieithog, byddant yn esbonio hynny i'r unigolyn a throsglwyddo'r galwad i aelod o staff sy'n siarad Cymraeg er mwyn iddyn nhw allu parhau â'r sgwrs yn Gymraeg. Os nad oes staff sy'n siarad Cymraeg ar gael, gall yr unigolyn cael aelod o staff sy'n siarad Cymraeg i ffonio nhw yn ôl neu barhau a'r sgwrs yn Saesneg.

Mae gan Athrofa Padarn Sant gyfeirlyfr o staff mewnol sy'n siarad Cymraeg ac yn rhoi gwybod pa staff sy'n medru derbyn galwadau yn Gymraeg. Gweler rhestr ynghlwm Atodiad 2.

### **4.3 Wyneb yn wyneb**

Mae Athrofa Padarn Sant wedi ceisio sicrhau bod unrhyw un sy'n dymuno cael cyswllt wyneb yn wyneb yn medru gwneud hynny ac aelod o staff / ymddiriedolwyr sy'n siarad Cymraeg os ydy hynny'n bosib. Ni fydd hyn yn bosib ar bob achlysur, ond mi fyddwn yn annog ac yn hyfforddi staff sy'n siaradwyr Cymraeg i wneud y defnydd mwyaf o'i sgiliau ieithyddol.

## 4.4 Digwyddiadau a chyfarfodydd cyhoeddus

Bydd unrhyw hysbysebion ar gyfer cyfarfodydd a chynadleddau yn ddwyieithog, ac yn cynnwys datganiad y bod hawl unigolion i siarad Cymraeg neu Saesneg yn cael ei barchu. Bydd unrhyw ddeunyddiau wedi eu hargraffu yn ddwyieithog ac mi fydd Athrofa Padarn Sant yn annog pawb i barchu'r egwyddor o gydraddoldeb.

Bydd staff sy'n siaradwyr Cymraeg yn gwisgo bathodynau *laith Gwaith* yn dynodi eu bod yn siarad Cymraeg er mwyn i eraill fod yn ymwybodol eu bod yn siarad Cymraeg.

## 5. Delwedd Gorfforaethol

### 5.1 Hunaniaeth Gorfforaethol

Bydd hunaniaeth gorfforaethol Athrofa Padarn Sant yn hollol ddwyieithog gan gynnwys enw'r sefydliad. Bydd y logo a'r cyfeiriad i'w weld yn glir ar bapur pennawd, cyhoeddiadau a drwy'r adeilad.

Bydd y ddwy iaith yn gyfartal yn nhermau maint, fformat, ansawdd ac amlygrwydd.

### 5.2 Arwyddion

Wrth newid arwyddion bydd Athrofa Padarn Sant yn ymrwmo i ddarparu arwyddion hollol ddwyieithog ac mi fyddant yn gydradd o ran maint, fformat, ansawdd ac amlygrwydd. Bydd hyn yn cynnwys arwyddion allanol ar adeiladau a swyddfeydd. Bydd y Gymraeg yn ymddangos o flaen y Saesneg.

## 6. Cyhoeddiadau

### 6.1 Dogfennau

Bydd deunyddiau hyrwyddo megis posteri, adroddiadau blynyddol, datganiadau yn ddwyieithog naill ai yn gefn wrth gefn neu yn Gymraeg a Saesneg ar wahân. Bydd unrhyw wybodaeth gyfredol sy'n cael ei hail argraffu yn ddwyieithog. Os byddwn yn codi pris am y deunydd ni fydd y pris yn uwch na'r fersiwn Saesneg.

Byddwn yn parhau i ymdrechu i gynhyrchu adnoddau dysgu sy'n ddwyieithog, bydd deunydd argraffedig yn adlewyrchu'r iaith / ieithoedd a gyflwynir y cwrs ynddynt.

Bydd staff, ymgynghorwyr, dylunwyr ac argraffwyr yn cael copi o'n canllawiau ar sut i ymdrin â chyhoeddiadau dwyieithog. Byddwn yn ystyried gofyn i wirfoddolwyr / staff am gymorth pan ymdrin â chyhoeddiadau dwyieithog. Byddwn yn sicrhau bod y Testun Cymraeg o safon uchel ac yn teilwra'r iaith at y gynulleidfa.

## 7. Datganiadau i'r wasg

Bydd datganiadau i'r wasg yn cael ei rhyddhau yn ddwyieithog. Bydd cyfweiliadau yn cael eu cynnal yn Gymraeg lle fo'n bosib.

## 8. Gwefannau a Thechnoleg

Bydd aelodau'r cyhoedd yn medru cael mynediad i wybodaeth drwy wefan Athrofa Padarn Sant yn Gymraeg a Saesneg. Bydd botwm iaith ar frig bob tudalen i roi dewis iaith amlwg i bobl. Bydd y wefan yn cael ei ddiweddarau yn Gymraeg ac yn Saesneg ar yr un pryd.

Wrth gynllunio neu ailstrwythuro gwefannau neu unrhyw wasanaeth Technoleg Gwybodaeth byddwn yn ystyried canllawiau'r Comisiynydd Iaith Gymraeg ar 'ystyriaethau Cymraeg o dechnoleg, gwefannau a meddalwedd'

Er mwyn medru cynorthwyo staff, fe fyddant yn cael cynnig geiriadur Cysgliad, neu feddalwedd To Bach. Bydd fersiynau Cymraeg o Microsoft Windows ac Office ar gael hefyd. Bydd staff sy'n siaradwyr Cymraeg yn dysgu am offer / pheccynnau sydd ar gael fel rhan o'u cyfnod ymsefydlu. Gellir cael y rhain drwy gysylltu â'r Cydlynnydd Cyfathrebu ac Adnoddau Cymraeg neu'r adran TGCh.

## 9. Gweithredu'r Cynllun

### 9.1 Staffio

Bydd Athrofa Padarn Sant yn asesu'r sgiliau ieithyddol angenrheidiol ym mhob lleoliad gwaith ac ar gyfer bob gweithgaredd craidd er mwyn gweithredu'r cynllun hwn. Bydd swydd ddisgrifiadau yn nodi'n glir os ydy sgiliau Cymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol.

Bydd Athrofa Padarn Sant yn cynnal adolygiad o sgiliau ieithyddol ei staff yn flynyddol, ac yn cynnwys y wybodaeth hon mewn cyfeirlyfr mewnol i staff.

- a. Er mwyn i staff cael gwneud defnydd o'i sgiliau ieithyddol
- b. Ac i gydnabod unrhyw fwlch mewn iaith o fewn y tîm

Bydd unrhyw fylchau mewn iaith yn cael eu llenwi yn ystod y broses recriwtio staff neu hyfforddiant staff presennol.

Bydd unrhyw swyddi yn cael eu hysbysebu yn ddwyieithog ar ein gwefan, gwefan yr Eglwys yng Nghymru ar wefanau Lleol.net a Golwg yn ogystal â gwefannau Cristnogol ac elusennol eraill fel Recruit3, Big Issue a Christian Jobs.

## 9.2 Dysgu Cymraeg

### Cyrsiau Cymraeg

Bydd Athrofa Padarn Sant yn annog staff sy'n dymuno dysgu Cymraeg, ac yn eu cefnogi os ydynt yn dymuno gwneud cyrsiau i ddatblygu eu sgiliau ieithyddol. Byddwn yn codi ymwybyddiaeth ynghylch cyrsiau Cymraeg y Ganolfan Dysgu Cymraeg ac unrhyw adnoddau Cymraeg sydd ar gael.

Bydd staff Cymraeg eu hiaith a gwirfoddolwyr yn annog staff eraill sy'n dysgu Cymraeg i siarad Cymraeg yn y gweithle. Bydd Athrofa Padarn Sant fel arfer yn talu am gyrsiau y bydd staff yn mynychu yn ystod oriau gwaith.

Bydd staff Cymraeg eu hiaith Athrofa Padarn Sant yn annog staff di-gymraeg i wneud defnydd o'r Gymraeg yn ystod digwyddiadau megis addoliad a grwpiau gweddi ac mi fyddwn yn rhannu brawddegau ac ymadroddion Cymraeg i'w defnyddio.

## 9.3 Marcio Aseiniadau

Mae gan ddysgwyr yr hawl gyflwyno eu haseiniadau yn Gymraeg. Os nad oes posibil i'w farcio yn Gymraeg bydd y broses fydd:

- Anfon y gwaith at gyfieithydd allanol i'w gyfieithu.
- Yn dilyn derbyn y cyfieithiad bydd copi yn cael ei ddanfôn at y dysgwr i wirio bod y testun yn adlewyrchu'r un gwreiddiol. Gall gwneud newidiadau os nad yw'r cyfieithiad yn cyfleu'r gwreiddiol.
- Bydd y gwaith a gyfieithwyd yn cael ei farcio.
- Bydd y gwaith gwreiddiol yn cael ei farcio gan ail farciwr.
- Bydd y gwaith yn cael ei ddychwelyd o fewn yr un amser ac y byddai aseiniad oedd wedi ei gyflwyno yn Saesneg.

## 10. Gweithredu a monitro

### 10.1 Monitro

Bydd y Pennaeth a'r Rheolwr Gweithrediadau a'r Cydlynnydd Cyfathrebu ac Adnoddau Cymraeg yn monitro gweithredu'r cynllun yn unol â'r amserlen ynghlwm ac yn adrodd yn ôl i Fwrdd Gweithredol Athrofa Padarn Sant.

Bydd y cynllun yn cael ei adolygu a'i ddiwygio bob tair blynedd mewn ymgynghoriad â Chomisiynydd y Gymraeg.



## **10.2 Cwynion ac Adborth**

Byddwn yn sicrhau bod pobl yn ymwybodol bod Cynllun Iaith Gymraeg ar gael ac y gellir ei weld ar ein gwefan. Bydd unrhyw gwynion y byddwn yn derbyn ynghylch y Gymraeg yn cael eu gwneud i'r Cydlynnydd Cyfathrebu ac Adnoddau Cymraeg ac yna'n dilyn ein proses gwynion.

## **11. Hysbysebu'r Cynllun a chodi ymwybyddiaeth**

Bydd y cynllun yn cael ei gyhoeddi ar wefan Athrofa Padarn Sant.

Bydd adran ar sut rydym yn gweithredu'r cynllun yn cael ei gynnwys yn ein Hadroddiad Blynyddol.

Bydd sesiynau hyfforddi yn cael ei gynnal yng nghyfarfodydd yr Holl Staff i sicrhau bod staff yn deall y cynllun a beth mae'n golygu o ran eu gwaith.





<b>Maes Gwaith</b>	<b>Sut i Weithredu</b>	<b>Gan Bwy</b>	<b>Amserlen</b>
<b>3.1 Polisiâu a mentrau newydd</b>	Sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hystyried wrth lunio mentrau a pholisiâu newydd	Pennaeth	Gyson
<b>3.2 Darparu Gwasanaeth</b>	Sicrhau bod staff yn gwisgo bathodynnewau iaith gwaith  Arddangos posteri lle bo'n briodol i annog defnydd o'r Gymraeg.	Angharad / Kathryn  Angharad / Kathryn	Erbyn 2020  Erbyn 2021
<b>4. Cyfathrebu â'r cyhoedd Cymraeg eu hiaith</b>	Ychwanegu ar lofnod e-bost ein bod yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg  Creu stoc o ymatebion dwyieithog allan o'r swyddfa i holl staff.	Angharad i baratoi llofnod e-bost i ddanfon allan at staff Angharad	Erbyn Hydref 2019  Erbyn Hydref 2019
<b>4.2 Cyfathrebu dros y ffôn</b>	Sicrhau bod staff Gwasanaethau Cymorth yn cyfarch pobl yn ddwyieithog.  Creu rhestr o staff sy'n gallu siarad Cymraeg er mwyn i staff sydd ddim yn gallu delio gyda'r alwad ei basio ymlaen.	Ffion / Angharad  Angharad	Yn syth
<b>4.3 Wyneb yn wyneb</b>	Mae staff Cymraeg eu hiaith ar gael os oes unigolyn yn holi i ymdrin â rhywun sy'n siarad Cymraeg.  Gwisgo bathodynnewau <i>laith Gwaith</i> i wneud pobl yn ymwybodol o siaradwyr Cymraeg Creu rhestr fewnol o staff sy'n siarad Cymraeg er mwyn ei rhannu â staff a Gwasanaethau Cymorth.	Angharad  Angharad  Angharad	Parhaus  Parhaus  Parhaus



<b>Maes Gwaith</b>	<b>Sut i weithredu</b>	<b>Gan Bwy</b>	<b>Amserlen</b>
<b>4.4 Cyfarfodydd cyhoeddus a digwyddiadau</b>	<p>Cynadleddau a Chyfnodau Preswyl yn cynnig rhywfaint o Gymraeg yn barod yn ystod cyfnod Gweddi, astudio'r Beibl, siaradwyr gwadd ayyb).</p> <p>Parhau i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hystyried pan fo digwyddiadau yn cael ei drefnu.</p> <p>Sicrhau bod staff yn gwisgo bathodynnew iaith gwaith er mwyn annog eraill i ddefnyddio Cymraeg yn hytrach na Saesneg.</p>	<p>Manon / Lyn Tiwtor a chydlynnydd perthnasol Tiwtor a chydlynnydd perthnasol  Angharad</p>	<p>Parhaus Parhaus  Parhaus</p>
<b>5. Delwedd Gorfforaethol</b> <b>5.1 Hunaniaeth Gorfforaethol</b>	<p>Enw, cyfeiriad a logo i gyd yn ddwyieithog yn barod yn ogystal ag arwyddion mewnol a chardiau busnes.</p>	<p>Angharad</p>	<p>Parhaus</p>
<b>5.2 Arwyddion</b>	<p>Arwyddion mewnol yn ddwyieithog. Sicrhau bod arwyddion allanol adeilad Padarn Sant Caerdydd yn ddwyieithog pan fyddant yn cael eu adnewyddu a'r Cymraeg yn dod gyntaf.</p>	<p>Angharad / Siân</p>	<p>Parhaus</p>
<b>6. Cyhoeddiadau</b>	<p>Bydd Posteri, ffurflenni llawlyfrau, adroddiadau blynyddol a datganiadau yn ddwyieithog.</p> <p>Mae nifer helaeth o ffurflenni ar gael yn ddwyieithog gyda'r nod o gael pob ffurflen yn y dyfodol.</p>	<p>Angharad  Angharad / Manon Tiwtor a chydlynnydd perthnasol</p>	<p>Parhaus  Erbyn Gorffennaf 2023</p>
<b>7. Datganiadau I'r Wasg</b>	<p>Bydd pob datganiad i'r wasg yn ddwyieithog.</p>	<p>Pennaeth / Angharad</p>	<p>Parhaus</p>



<b>Maes Gwaith</b>	<b>Sut i weithredu</b>	<b>Gan Bwy</b>	<b>Amserlen</b>
<b>8. Gwefannau a Thechnoleg Gwybodaeth</b>	<p>Mae'r wefan yn hollol ddwyieithog</p> <p>Mae ein tudalennau cyfryngau cymdeithasol yn ddwyieithog.</p>	Angharad	Parhaus
<b>9. Gweithredu'r Cynllun</b> <b>9.1 Staffio</b>	<p>Bydd swydd disgrifiadau yn nodi sgiliau Cymraeg fel delfrydol neu angenrheidiol, ac yn nodi sgiliau ieithyddol penodol sydd eu hangen.</p> <p>Bydd pob swydd yn cael ei hysbysebu yn ddwyieithog ar wefan Athrofa Padarn Sant, gwefan yr Eglwys yng Nghymru a gwefannau eraill megis Lleol.net, Golwg, Recruit3, Big Issue, and Christian Jobs.</p>	Kathryn /Jeremy  Kathryn / Jeremy	Parhaus  Parhaus
<b>9.2 Dysgu Cymraeg</b>	<p>Mae staff yn cael eu hannog i ddysgu Cymraeg ac mae Padarn Sant yn talu am gostau hyfforddi.</p> <p>Sicrhau bod staff i gyd yn ymwybodol o hyn. Codi ymwybyddiaeth o adnoddau sydd ar gael gan Ddysgu Cymraeg sydd ar gael gan Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol.</p>	Angharad / Manon  Angharad / Manon	Erbyn Awst 2020  Parhaus
<b>9.3 Cyflwyno Aseiniadau Cymraeg</b>	<p>Mae gan ymgeiswyr hawl i gyflwyno aseiniadau yn Gymraeg ac yn unol â pholisi marcio Padarn Sant. Byddwn yn dychwelyd gwaith yn yr un amser ac unrhyw aseiniad Saesneg</p>	Manon / Trystan	Parhaus
<b>10. Gweithredu'r cynllun</b> <b>10.1 Monitro</b> <b>10.2 Cwynion ac Adborth</b>	<p>Bydd y cynllun yn cael ei fonitro a'i ddiwygio bob tair blynedd.</p> <p>Bydd unrhyw gwynion ynghylch yr iaith Gymraeg yn mynd at y Cydlynnydd Cyfathrebu ac Adnoddau Cymraeg ac yna yn dilyn polisi Cwynion Athrofa Padarn Sant.</p>	Angharad / Manon / Kathryn Angharad	Erbyn Awst 2025  Parhaus
<b>11 Hysbysebu'r Cynllun</b>	<p>Bydd y cynllun yn cael ei rhannu gyda staff yn fewnol a hefyd ar gael i lawr lwytho ar y wefan.</p>	Angharad  Angharad	Parhaus  Parhaus



ATHROFA PADARN SANT  
ST PADARN'S INSTITUTE

	Gwneud sesiynau hyrwyddo'r cynllun yn ystod cyfarfodydd Holl Staff fel bo staff yn deall beth yw gofynion y cynllun iddyn nhw.		
--	--	--	--



ATHROFA PADARN SANT  
ST PADARN'S INSTITUTE

## **Atodiad 2 - Staff Cymraeg eu hiaith**

Parch Dr Manon Ceridwen James

Dr Siôn Aled Owen

Parch Dr Trystan Owain Hughes

Ffion Parry

Angharad Gaylard

Dave Taylor